Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Peniel**
**Peniel**
**Caerfyrddin**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA32 7AB**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/03/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Peniel wedi ei lleoli ar gyrion y pentref ac yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Mae 116 o ddisgyblion rhwng 3 ac11 oed ar y gofrestr, a chânt eu haddysgu mewn pedwar dosbarth oed cymysg. Ychydig iawn o'r disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae tua 14% o'r disgyblion ar y gofrestr ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae 55% o’r disgyblion yn dod o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg.

Cychwynnodd y pennaeth presennol yn ei swydd ym mis Ionawr 2008 a’r dirprwy ym mis Medi 2014. Ers yr arolygiad diwethaf ym mis Medi 2009, symudodd yr ysgol i adeilad newydd pwrpasol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Peniel yn 2014-2015 yw £3,628. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £9,977 a'r lleiafswm yw £3,325. Mae Ysgol Gynradd Peniel yn y 60fed safle o'r 95 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- Llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu hamser yn yr ysgol
- Llawer o ddisgyblion o oed cynnar iawn yn siarad yn rhwydd gan fynegi barn yn glir
- Disgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau meddwl yn effeithiol yn eu gwaith rhaglennu ar y cyfrifiadur
- Medrau rhifedd llawer o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn effeithiol
- Disgyblion yn deall beth sydd angen ei wneud i wella eu gwaith
- Disgyblion yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd ymarfer corff a bod y ddarpariaeth ar gyfer hyn yn dda
- Disgyblion yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda
- Disgyblion yn hoffi dod i'r ysgol a bod presenoldeb yn dda iawn
- Athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn effeithiol ac yn fodelau iaith lafar o safon uchel

Fodd bynnag:

- Nid yw perfformiad yr ysgol dros y pedair blynedd ddiwethaf yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg
- Mae'r bwlch rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched yn rhy fawr
- Nid yw disgyblion mwy abl yn cyflawni cystal ag y gallent

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- Yr arweinyddiaeth wedi ei sefydlu ar weledigaeth ac amcanion clir sydd wedi cael eu rhannu'n llwyddiannus gyda phawb sydd ynghlwm â'r ysgol
- Ffocws cadarn ar godi safonau
- Defnydd da o arbenigedd gwahanol aelodau o staff
- Yr ysgol yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol
- Strwythur clir ar gyfer arfarnu ei pherfformiad ei hun a chynllunio ar gyfer gwella
- Yr ysgol wedi meithrin amrediad eang o bartneriaethau defnyddiol sy'n cyfrannu'n effeithiol tuag at gyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion

## Argymhellion

A1 Codi deilliannau disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd cyfnod allweddol 2 fel eu bod yn cymharu'n well ag ysgolion tebyg

A2 Sicrhau bod deilliannau disgyblion mwy abl yn cymharu'n well ag ysgolion tebyg

A3 Sicrhau bod yr addysgu yn gyson dda yng nghyfnod allweddol 2

A4 Sicrhau bod asesu ar draws yr ysgol yn adlewyrchu safonau'r disgyblion yn well

A5 Datblygu rôl strategol yr uwch dîm arwain newydd gan ganolbwyntio ar sefydlu trefniadau grymus ar gyfer monitro ystod y ddarpariaeth

A6 Sicrhau bod meini prawf llwyddiant mewn cynlluniau ar gyfer gwella yn cynnwys perfformiad mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae medrau sylfaenol disgyblion wrth iddyn nhw gychwyn yn yr ysgol yn amrywiol ac mae medrau iaith yn gyson is na'r medrau eraill. Gwna llawer o ddisgyblion gynnydd da yn ystod eu hamser yn ysgol. Yn gyffredinol, maent yn gweithio'n gynhyrchiol yn y dosbarthiadau ac yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn nodau'r gwersi. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm,yn arbennig yn rhan uchaf yr ysgol wrth ddatblygu medrau rhaglennu ar y cyfrifiadur. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy galluog bob amser yn cyflawni gystal ag y gallent.

Mae medrau llafar y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus drwy'r ysgol. O oed cynnar iawn, mae llawer yn siarad yn rhwydd gan fynegi barn yn glir. Mae'r rhan fwyaf yn gallu ailadrodd stori ar goedd yn hyderus a gwrando'n effeithiol ar gyfraniadau eraill. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau llafar Cymraeg a Saesneg disgyblion yn parhau i ddatblygu'n effeithiol a hynny mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall llawer o ddisgyblion ddefnyddio strategaethau'n effeithiol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd neu i ganfod ystyr. Mae llawer yn adnabod a darllen geiriau sylfaenol yn gywir ac yn cymryd sylw priodol o atalnodau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn hyderus gan amrywio goslef y llais yn briodol i'w hoed. Mae llawer yn defnyddio geiriadur yn llwyddiannus a gallant frasddarllen yn effeithiol wrth gasglu gwybodaeth ar destunau trawsgwricwlaidd. Fodd bynnag, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn dewis eu llyfrau darllen eu hunain, gydag ychydig yn dewis llyfrau sy'n rhy hawdd neu'n rhy anodd iddyn nhw. O ganlyniad, nid yw pob un yn gwneud y cynnydd priodol.

Mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn defnyddio map meddwl wrth gynllunio stori sydd yn sail i waith estynedig cynhwysfawr yn y Gymraeg. Mae llawysgrifen llawer o'r disgyblion yn daclus ac maent yn hyderus wrth ysgrifennu'n annibynnol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o wahanol ffurfiau ysgrifennu yn y ddwy iaith, gan ddefnyddio'r nodweddion hyn yn hyderus ar draws ystod o bynciau. Mae llawer o'r disgyblion hyn yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd da yn eu hysgrifennu estynedig yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn effeithiol mewn gweithgareddau amrywiol ar draws y meysydd dysgu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf afael sicr ar ystod briodol o fedrau rhifedd. Gallant ddefnyddio ystod eang o strategaethau priodol i ddatrys problemau rhif yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn cymhwyso'r medrau rhifedd y maent yn eu dysgu mewn gwersi mathemateg yn effeithiol mewn pynciau eraill. Er enghraifft, wrth astudio prosiect ar ynni ym mhen uchaf yr ysgol, arweiniodd cymhariaeth o brisiau trydan gan amryw o ddarparwyr at ddatblygu taenlen i gyfrifo bil trydan.

Yn y Cyfnod Sylfaen, bu tuedd cyffredinol o welliant ym mherfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol dros dair blynedd. Fodd bynnag, yn yr un cyfnod, mae'r perfformiad o ran medrau iaith wedi bod yn gyson naill ai yn y 50% is neu'r 25% isaf mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg. Ar ôl bod yn y 50% is am ddwy flynedd, cododd perfformiad mewn datblygiad mathemategol i'r 25% uchaf yn 2014. Mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd ar y deilliant uwch wedi gwella ac yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg yn dilyn dwy flynedd yn yr 50% is. Nid yw perfformiad mewn datblygiad mathemategol disgyblion ar y deilliant uwch yn dangos yr un cynnydd ac yn 2014 roedd y perfformiad yn gosod yr ysgol yn y 50% is.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2014, nid oedd perfformiad disgyblion o ran cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn y Gymraeg, Saesneg a mathemateg yn cymharu'n dda ag ysgolion tebyg. Roedd ei pherfformiad yn y Gymraeg a Saesneg yn gosod yr ysgol yn yr 50% is, ac o ran mathemateg yn y 25% isaf. Roedd y perfformiad mewn gwyddoniaeth yn well ac yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf. Yn gyffredinol, mae'r tuedd ym mherfformiad yr ysgol yn y pynciau craidd wedi bod ar i lawr, heblaw am wyddoniaeth lle mae wedi bod yn anghyson. Ar y cyfan, mae perfformiad disgyblion sy'n cyrraedd y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5) dros yr un cyfnod wedi bod islaw'r canolrif o gymharu ag ysgolion tebyg.

Er bod y nifer yn fechan iawn, mae cyflawniad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gyffredinol well o'u cymharu â'u cyfoedion. Dros gyfnod o amser, mae merched yn perfformio'n gyson well na bechgyn o ran cyrraedd y lefel ddisgwyliedig, yn arbennig yn y Gymraeg a Saesneg. Mae'r bwlch rhyngddynt yn gyson yn fwy na bwlch y teulu. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n briodol ar lefel sy'n cyfateb i'w gallu ac yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

**Lles: Da**

Mae pob plentyn yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i fynd os ydynt yn pryderu. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn mewn modd cyfrifol ac yn arddangos parch a gofal tuag at ei gilydd. Yn gyffredinol, maent yn weithgar a brwdfrydig ac yn cydweithio'n briodol. Mae llawer o'r disgyblion yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn cadw ar dasg am gyfnodau penodol. Fodd bynnag, nid yw gallu disgyblion i weithio'n annibynnol nac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain wedi datblygu cystal ar waelod cyfnod allweddol 2.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol iawn at y nifer o gyfleoedd ymarfer corff sydd ar gael yn yr ysgol yn ystod y dydd a thrwy'r clybiau ar ôl ysgol. Mae'r disgyblion sy'n llysgenhadon chwaraeon yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri ac yn trefnu gweithgareddau Ffrindiau Ffit yn gyson yn ystod amser egwyl. Mae hyn yn gymorth mawr i sicrhau bod agwedd cyd-ddisgyblion at gadw'n heini yn datblygu'n dda ac yn un o gryfderau amlwg yr ysgol.

Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco wedi eu sefydlu'n dda, ac mae'r disgyblion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Maent wedi cyfrannu tuag at nifer o agweddau o waith yr ysgol fel y cylchlythyr tymhorol 'Llais y Plant' a'r polisi bwlio a'r cytundeb gwrth

fwlio. Trwy waith y cynghorau hyn, mae disgyblion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio'n gadarnhaol ar fywyd yr ysgol. Enghraifft o hyn yw eu cyfraniad i hyrwyddo pwysigrwydd masnach deg. Mae'r disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol i'r gymuned leol drwy amrywiaeth o weithgareddau fel codi arian at elusennau lleol a chymryd rhan mewn gwasanaethau yn y capel.

Mae bron pob disgybl yn brydlon yn gyson, yn mwynhau dod i'r ysgol ac mae cyfraddau presenoldeb dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi cynyddu'n dda. Yn 2014, 98.1% oedd y gyfradd presenoldeb, a thros bedair blynedd, mae'r ysgol wedi bod yn gyson yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r gyfradd presenoldeb yn un o gryfderau'r ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm er mwyn sicrhau cyflawniad dros gyfnod. Mae hyn yn cynnwys cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog sydd yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae'r cynllunio yn ymateb yn briodol i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ysgol yn sicrhau bod dysgwyr o bob oed yn cyfrannu'n llwyddiannus at y broses o gynllunio'r thema ac yn cymryd perchnogaeth dros eu dysgu.

Caiff gweithgareddau dysgu eu cyfoethogi'n bwrpasol trwy weithgareddau allgyrsiol fel ymweliad â fferm wynt neu ymweliadau preswyl. Darpara'r ysgol gyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau a chlybiau chwaraeon a chyfrifiadurol sy'n hybu'r gweithgareddau hyn yn effeithiol iawn. Mae hyn yn un o gryfderau amlwg yr ysgol.

Mae trefnu'r cwricwlwm mewn themâu trawsgwricwlaidd yn cynnig cyfleoedd addysgu effeithiol i sicrhau cynnydd a dilyniant mewn medrau llythrennedd a rhifedd. Mae hyn yn ymateb yn dda i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, sydd wedi ei gynllunio'n briodol drwy'r ysgol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd ymarferol yn llwyddiannus i ddatblygu medrau meddwl disgyblion ar draws y cwricwlwm a'u perthnasu i fywyd bob dydd. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig yng nghyfnod allweddol 2, yn benodol wrth astudio addysg grefyddol.

Mae'r gefnogaeth i wella medrau rhifedd a llythrennedd grwpiau penodol o ddisgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar allu'r disgyblion hyn i gyrraedd eu targedau personol yn y meysydd hyn. Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn cael lle blaenllaw yn yr ysgol, gyda'r disgyblion yn astudio a dathlu gwaith nifer o Gymry amlwg, gan gynnwys Tudur Dylan, Dylan Thomas a Kyffin Williams. Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg yn effeithiol, gyda'r staff yn fodelau iaith da, sy'n annog y disgyblion i'w hefelychu a defnyddio patrymau iaith a geirfa briodol yn effeithiol ac yn hyderus. Mae system wobrwyo Cymraeg Cŵl yn hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach yn llwyddiannus o fewn yr ysgol.

Trwy waith y pwyllgor Eco a chylchlythyr Llais y Plant, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyson a phriodol i ddisgyblion gael llais amlwg ym mhenderfyniadau amgylcheddol yr ysgol. Mae'r ysgol wedi sicrhau cyfleoedd priodol i hybu dealltwriaeth y disgyblion o sut i weithredu'n gynaliadwy trwy ailgylchu ac arbed ynni. Mae'r disgyblion yn mwynhau'r cyfrifoldebau a roddir iddynt ac maent yn cael effaith gadarnhaol ar nifer o agweddau ar fywyd yr ysgol. Mae'r ysgol wedi cyfoethogi addysg y disgyblion trwy nifer o gysylltiadau rhyngwladol. Trwy'r rhain, mae disgyblion yn dod i wybod am ffordd o fyw mewn gwledydd eraill trwy wybodaeth uniongyrchol oddi wrth ddisgyblion sy'n byw yno.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yr ysgol yn cynllunio gwersi a thasgau cyffrous sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn effeithiol. Maent yn fodelau iaith lafar o safon uchel. Mae effaith yr addysgu ar waith cyfredol yr ysgol yn dda.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae'r addysgu yn llwyddiannus. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn sicrhau cyflymdra addas ac yn rhoi cyflwyniadau bywiog sy'n tanio brwdfrydedd y disgyblion. Maent yn darparu gwaith sy'n cyfateb yn briodol i lefelau cyrhaeddiad y disgyblion ac yn eu herio'n briodol. Yn y gwersi llwyddiannus hyn, mae'r athrawon yn holi'r disgyblion yn dreiddgar ac yn eu hannog i feddwl er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth. Mae'r athrawon yn rheoli'r dosbarthiadau yn effeithiol ac yn sicrhau bod y disgyblion ar dasg yn gyson yn ystod y gwersi.

Yn yr eithriadau lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, nid yw'r addysgu yn sicrhau bod pob disgybl ar dasg nac yn datblygu i fod yn ddysgwyr digon annibynnol. Yma, mae cyflymdra'r cyflwyniad yn araf, ac nid yw disgwyliadau'n ddigon uchel i ateb gofynion pob disgybl.

Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio strategaethau effeithiol i asesu cynnydd disgyblion mewn gwersi a chynnig adborth llafar gwerthfawr iddynt. Mae'r athrawon yn marcio'n effeithiol, gan ddilyn y meini prawf llwyddiant a chynnig sylwadau adeiladol i'r disgyblion ar sut i wella'u gwaith. Caiff y disgyblion gyfleoedd achlysurol i ymateb yn ysgrifenedig i'r sylwadau hyn. Trwy hyn, mae'r disgyblion yn dod yn ymwybodol o ba mor dda maent yn cyflawni, a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella.

Mae'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth asesu'n bwrpasol er mwyn adnabod a thargedu unigolion a grwpiau yn effeithiol. Mae gweithdrefnau lefelu a chymedroli ar waith, ac yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r asesu yn gywir. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion mae'r asesu yn rhy llym ac yn effeithio'n andwyol ar y data sy'n seiliedig ar ddeilliannau a lefelau diwedd cyfnod. Mae adroddiadau i rieni yn ateb y gofynion ac yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol iddynt am gyflawniadau a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac mae gan ddisgyblion gyfle dyddiol i brynu ffrwythau. Mae staff yn hybu iechyd a lles disgyblion yn effeithiol iawn, gan gynnig ystod eang iawn o weithgareddau

chwaraeon yn gyson yn ystod y dydd a thrwy weithgareddau allgyrsiol a chlybiau ar ôl ysgol. Maent yn annog y disgyblion i gyd i gymryd rhan drwy wneud defnydd effeithiol o'r llysgenhadon chwaraeon. Mae hyn yn gryfder amlwg.

Mae'r staff yn cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus drwy amrywiol weithgareddau priodol, ac mae'r ysgol yn rhan greiddiol o'i chymuned leol. Mae disgwyliadau'r ysgol o ran ymddygiad y disgyblion wedi eu nodi'n glir o fewn rheolau'r ysgol, ei gwerthoedd a'i pholisïau. Caiff ymddygiad da ei hyrwyddo a'i wobrwyo ym mhob dosbarth.

Mae'r ysgol yn gwahodd arbenigwyr i ymweld â'r ysgol yn rheolaidd er mwyn cyfoethogi profiadau addysgol y disgyblion. Gwneir defnydd pwrpasol iawn o gefnogaeth gwasanaeth cerdd y sir trwy'r ystod eang o wersi cerddoriaeth a gynigir. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n llwyddiannus iawn gyda Chwaraeon Cymru. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o wasanaethau arbenigol sy'n sicrhau bod disgyblion yn derbyn gwybodaeth a chymorth proffesiynol, gan gynnwys cefnogaeth lle bo angen. Enghraifft o hyn yw'r cydweithio agos gyda gwasanaeth nam clyw'r sir.

Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau cadarn o ran delio â gwahaniaethu, aflonyddwch a bwlio. Sicrhaodd yr ysgol ymrwymiad y disgyblion trwy eu cynnwys yn llwyddiannus yn y broses o greu'r polisi gwrth fwlio. O ganlyniad, arwyddodd pob disgybl, fesul dosbarth, gytundeb gwrth fwlio. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae darpariaeth dda i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r athrawon yn adnabod anghenion y disgyblion yn gynnar ac yn sicrhau eu bod yn derbyn cymorth priodol. Mae'r cynlluniau addysg unigol ar gyfer y disgyblion yn cynnwys targedau clir, ac mae trefniadau rheolaidd i drafod cynnydd â'r rhieni yn gyson. Mae'r ysgol yn monitro cynnydd y disgyblion hyn yn erbyn eu targedau'n ofalus er mwyn darparu cefnogaeth bwrpasol yn amserol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, gynhwysol a gofalgar ble caiff pob disgybl fynediad llawn at y cwricwlwm. Mae'r gymuned hon yn cydweithio'n fwriadus er mwyn adlewyrchu cenhadaeth yr ysgol sef 'Llwyddo gyda'n Gilydd' yn llwyddiannus. Mae amcanion yr ysgol yn arwain at werthfawrogi a dathlu gwahaniaeth yn effeithiol trwy nifer o gysylltiadau rhyngwladol.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau sydd o ansawdd da a gwneir defnydd addas ohonynt i gefnogi'r dysgu. Gwelir ar hyd y coridorau a'r dosbarthiadau arddangosfeydd cyfoethog o waith y disgyblion sy'n ennyn balchder ynddynt am eu gwaith. Yn ogystal, mae'r ysgol yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion trwy arddangos tystiolaeth o'u llwyddiannau oddi mewn a thu allan i'r ysgol.

Ceir amrediad buddiol o adnoddau addysg gorfforol a meysydd chwarae ac mae'r ystafelloedd newid ar gyfer merched a bechgyn yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae'r adeilad y tu mewn a'r tu allan o ansawdd da ac yn ddigonol ar hyn o bryd ar gyfer nifer y disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r hyn sydd ar gael. Mae safon glanweithdra, cynnal a chadw a diogelwch yr ysgol a'r tir yn dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol, sy'n seiliedig ar gydweithio i godi safonau a sicrhau lles disgyblion. Mae'r pennaeth yn llwyddo i rannu'r weledigaeth yn llwyddiannus gyda'r staff a phawb arall sy'n gysylltiedig â'r ysgol. Mae'r disgwyliadau uchel hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau cyfredol yr ysgol.

Mae'r dirprwy yn newydd i'w swydd, ac wedi dechrau cymryd rhai cyfrifoldebau am arwain yr ysgol yn briodol ar y cyd â'r pennaeth. Fodd bynnag, nid yw rôl strategol yr uwch dîm arwain yn canolbwyntio digon ar sefydlu trefniadau grymus ar gyfer monitro ystod y ddarpariaeth. Er enghraifft, er bod y pennaeth a'r dirprwy yn monitro cynlluniau athrawon yn gyson, nid ydynt yn sicrhau bod y cynlluniau hyn bob amser yn weithredol ar lawr y dosbarth nac yn cael eu hadlewyrchu yn llyfrau'r disgyblion o ran addysg grefyddol.

Mae swydd ddisgrifiadau'r staff yn eu lle ac yn nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau'n briodol. Mae'r ysgol yn rhoi sylw dyledus i ddatblygiad parhaus y staff sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol a thargedau rheoli perfformiad. Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd lle mae cyfleoedd i staff yr ysgol rannu gwybodaeth am arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau gyda'i gilydd. Yn y cyfarfodydd hyn, mae arweinwyr yr ysgol yn canolbwyntio'n briodol ar godi safonau gwaith disgyblion. O ganlyniad, mae deilliannau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn dangos cynnydd ac yn cymharu'n ffafriol bellach ag ysgolion tebyg.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Erbyn hyn, mae'r Cyfnod Sylfaen wedi ei sefydlu'n llwyddiannus ac mae'r staff yn defnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn eu cynllunio yn effeithiol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cymryd rôl strategol a phriodol ym mywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn derbyn adroddiadau cyson gan y pennaeth ar gyrhaeddiad disgyblion a pherfformiad yr ysgol. Mae eu rôl wrth ymweld â'r ysgol wedi'i datblygu'n briodol dros gyfnod. Mae hyn yn gymorth iddynt fonitro'r ddarpariaeth a deall pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni. O ganlyniad, mae ganddynt well dealltwriaeth i ddechrau herio'r ysgol a dwyn staff i gyfrif am ei pherfformiad. Fodd bynnag, nid yw'r herio hyn wedi cael digon o effaith eto ar godi safonau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 o gymharu ag ysgolion tebyg.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn adnabod ei chryfderau a'r rhan fwyaf o'r meysydd sydd angen eu datblygu yn gywir.

Mae'r broses hunanarfarnu'n seiliedig ar dystiolaeth briodol sy'n cynnwys dadansoddi data, arsylwi gwersi, trafod â disgyblion a chraffu ar eu llyfrau. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer casglu barn rhieni a'r disgyblion trwy holiaduron ac mae'n rhoi ystyriaeth addas i'w sylwadau ac awgrymiadau. Mae hyn wedi arwain at gynnwys y disgyblion yn y broses o greu polisi gwrth fwlio.

Mae cyswllt cadarn yn bodoli rhwng blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol a phrif ddeilliannau'r broses hunanarfarnu. Mae ffurf a strwythur y cynllun datblygu ysgol yn briodol a'r camau i'w gweithredu yn glir ac ymarferol. Mae'r ddogfen yn cynnwys nifer briodol o dargedau meintiol sy'n canolbwyntio ar godi safonau ac yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar berfformiad disgyblion, yn arbennig yn y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid yw'r targedau hyn yn rhoi ffocws digon cyson ar y cymariaethau ag ysgolion tebyg i sicrhau eu bod yn ddigon miniog. Mae'r uwch arweinwyr yn adolygu cynnydd ym mlaenoriaethau cynllun datblygu'r flwyddyn flaenorol yn briodol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaid er mwyn gwireddu ei gweledigaeth. Mae perthynas effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r rhieni'n gefnogol iawn i holl weithgareddau'r ysgol. Rhanna'r ysgol wybodaeth am ei gweithgareddau a gwaith y dosbarthiadau yn effeithiol trwy lythyron rheolaidd a thrwy wybodaeth ar y wefan. Trwy raglen amrywiol o ddigwyddiadau, llwyddodd y gymdeithas rieni a chyfeillion i godi dros £5,000 y llynedd. Cafodd yr arian hwn ei ddefnyddio i gyfrannu tuag at gostau ymweliadau addysgol y disgyblion. Daw rhieni a thrigolion o'r gymuned i'r ysgol yn wythnosol i gyd-ddarllen gyda disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn ynghyd â'r nosweithiau cwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a TGCh ar gyfer y rhieni. Mae'r ffocws o gydweithio gyda rhieni ar godi safonau darllen wedi cynyddu dealltwriaeth y rhieni o sut i hyrwyddo a datblygu medrau darllen eu plant a chael effaith gadarnhaol ar safonau.

Mae partneriaeth dda rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Mae'r disgyblion yn ymweld yn gyson â'r capel cyfagos i gynnal gwasanaethau crefyddol ac yn cynorthwyo gyda threfniadau cinio clwb trigolion yr ardal yn fisol. Gwna'r gymuned ddefnydd cyson o adnoddau'r ysgol ac mae hyn yn cyfrannu at sicrhau bod yr ysgol yn rhan ganolog o'r gymuned. O ganlyniad, mae medrau cymdeithasol a hyder y disgyblion wrth gyflwyno a siarad gydag oedolion wedi datblygu'n dda. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda llawer o asiantaethau yn y gymuned a busnesau lleol i gyfoethogi cwricwlwm yr ysgol a chodi ymwybyddiaeth y disgyblion o'u hardal a'u cyfrifoldeb o fewn eu cymuned.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda chylchoedd meithrin yr ardal i sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym yn y dosbarth derbyn. Mae ystod ac ansawdd y trefniadau trosglwyddo ar gyfer y disgyblion hŷn i'r ysgol uwchradd yn dda. Maent yn cael eu paratoi'n drylwyr at y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion cynradd y dalgylch ac ysgolion cynradd eraill i rannu arfer dda mewn agweddau fel ysgrifennu estynedig ac entrepreneuriaeth. Ar y cyfan, mae'r cydweithio effeithiol i gyd-safoni a chymedroli lefelau gwaith disgyblion yn datblygu hyder athrawon. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw dealltwriaeth yr athrawon o lefelu yn ddigon cywir. O ganlyniad, mae'r asesu yn rhy llym ac yn effeithio'n andwyol ar ddeilliannau a lefelau diwedd cyfnod.

Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau effeithiol gydag asiantaethau allanol a'r awdurdod lleol. Mae hyn yn cael effaith bositif ar les disgyblion. Enghraifft o hyn yw'r ddarpariaeth diogelwch ar y we i ddisgyblion hŷn yr ysgol a rhieni gan swyddog cyswllt yr heddlu. O ganlyniad i'r bartneriaeth effeithiol gyda gwasanaeth cerdd y sir, mae dros hanner disgyblion cyfnod allweddol 2 yn derbyn gwersi offerynnol yn yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd da iawn.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a staff cynorthwyol i ddiwallu ei hanghenion presennol. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o arbenigedd a diddordebau aelodau’r staff er mwyn cyfoethogi’r cwricwlwm i’r disgyblion. Enghreifftiau penodol o hyn yw’r ddarpariaeth effeithiol ar gyfer addysg gorfforol a TGCh.

Mae’r ysgol yn ymateb yn briodol i ofynion statudol i leihau baich gwaith athrawon. Mae’r athrawon yn defnyddio’u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu’n effeithiol i ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus yn y gwersi. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i reoli perfformiad y staff. O ganlyniad, maent yn derbyn ystod o hyfforddiant pwrpasol sy’n ymateb yn briodol i flaenoriaethau'r ysgol a’u hanghenion proffesiynol personol.

Mae’r ysgol wedi cymryd rhan mewn nifer o rwydweithiau proffesiynol ar y cyd ag ysgolion eraill yn y gorffennol. Mae’n rhan o rwydwaith i ddatblygu dealltwriaeth ac adnoddau ar gyfer disgyblion mwy abl gyda phedair ysgol arall ar hyn o bryd. Mae rhwydwaith arall sy’n bodoli o fewn yr ysgol yn arwain at rymuso’r defnydd o dechnegau asesu ar gyfer dysgu yn bwrpasol. Mae safonau cyfredol yr ysgol ynghyd â’r addysgu yn dangos bod y rhain yn cael effaith gadarnhaol.

Mae amrediad addas o adnoddau yn yr ysgol sy'n cael eu rheoli a’u defnyddio yn effeithiol i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael mynediad llawn i’r cwricwlwm.

Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau’r cynllun datblygu ar gyfer codi safonau a lles y disgyblion a chânt eu monitro’n briodol. Gan mai ychydig iawn o ddisgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, nid yw wedi derbyn grant amddifadedd disgyblion eleni.

O ystyried y safonau mae disgyblion yn eu cyflawni, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6692014 - Ysgol Gynradd Peniel**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 123 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 0.4 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 18 | 15 | 18 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 88.9 | 80.0 | 94.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 15 | 18 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 88.9 | 80.0 | 94.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 16.7 | 26.7 | 38.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 15 | 18 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 94.4 | 93.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 22.2 | 33.3 | 27.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 15 | 18 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 46.7 | 72.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6692014 - Ysgol Gynradd Peniel**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 123 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 0.4 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 13 | 15 | 15 | 15 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 84.6 | 100.0 | 93.3 | 86.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 15 | 15 | 15 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 84.6 | 100.0 | 93.3 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 15.4 | 33.3 | 33.3 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 15 | 15 | 15 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 76.9 | 100.0 | 93.3 | 86.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 15.4 | 33.3 | 33.3 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 15 | 15 | 15 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 84.6 | 100.0 | 93.3 | 86.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 7.7 | 40.0 | 33.3 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 15 | 15 | 15 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 84.6 | 100.0 | 93.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 15.4 | 33.3 | 33.3 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd yn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 60 | 60<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 58 | 57<br>98%<br>92% | 1<br>2%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 60 | 60<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 60 | 60<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 60 | 60<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 59 | 57<br>97%<br>96% | 2<br>3%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 60 | 60<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 60 | 60<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 58 | 56<br>97%<br>91% | 2<br>3%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 59 | 59<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 58 | 42<br>72%<br>77% | 16<br>28%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 58 | 48<br>83%<br>84% | 10<br>17%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 33 | 19<br>58% | 11<br>33% | 1<br>3% | 2<br>6% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 33 | 28<br>85% | 3<br>9% | 1<br>3% | 1<br>3% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 33 | 24<br>73% | 6<br>18% | 0<br>0% | 2<br>6% | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 31 | 18<br>58% | 10<br>32% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 33 | 16<br>48% | 12<br>36% | 1<br>3% | 2<br>6% | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 45% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 31 | 17<br>55% | 10<br>32% | 1<br>3% | 1<br>3% | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 33 | 19<br>58% | 12<br>36% | 2<br>6% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 33 | 15<br>45% | 13<br>39% | 1<br>3% | 2<br>6% | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 33 | 17<br>52% | 12<br>36% | 2<br>6% | 1<br>3% | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 58% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 33 | 25<br>76% | 6<br>18% | 1<br>3% | 1<br>3% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 32 | 21<br>66% | 11<br>34% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 31 | 17<br>55% | 5<br>16% | 0<br>0% | 2<br>6% | 7 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 33 | 11<br>33% | 13<br>39% | 6<br>18% | 1<br>3% | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 33 | 20<br>61% | 10<br>30% | 1<br>3% | 1<br>3% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 33 | 13<br>39% | 10<br>30% | 2<br>6% | 1<br>3% | 7 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 33 | 19<br>58% | 11<br>33% | 2<br>6% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 28 | 9<br>32% | 8<br>29% | 2<br>7% | 2<br>7% | 7 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 33 | 24<br>73% | 7<br>21% | 1<br>3% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 32 | 18<br>56% | 12<br>38% | 1<br>3% | 1<br>3% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Maldwyn Pryse | Arolygydd Cofnodol |
| Eifion Watkins | Arolygydd Tîm |
| Gwen Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| Ceri Innes-Parry | Arolygydd Cymheiriaid |
| Angharad Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.